| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD** | **14 GORFFENNAF, 2011** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR** |
| **PWRPAS** | **Adolygu Cydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Dyrannu Seddau ar Bwyllgorau'r Cyngor** |
| **AWDUR** | **Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Cynghorydd Dyfed Edwards** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, Adran 15, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod cyfansoddiad ei bwyllgorau ac is-bwyllgorau yn adlewyrchu cryfderau'r gwahanol grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor.

1.2 Mae'n ofynnol i'r Cyngor wneud hynny o leiaf yn flynyddol gan ei fod yn rheidrwydd gwneud hynny yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor ac mewn unrhyw gyfarfod arall o'r Cyngor pan fo newid i'r cydbwysedd gwleidyddol.

1.3 Derbyniwyd ymddiswyddiad y Cynghorydd Dylan Edwards o Grŵp Plaid Cymru a datganodd ei fwriad i fod yn aelod unigol a pheidio ymuno ag unrhyw grŵp arall.

1.4 Ar ddiwedd mis Mai derbyniwyd y newyddion trist am farwolaeth y Cynghorydd Dai Rees Jones.

1.5 Cynhaliwyd isetholiad yn Ward Arllechwedd ar 16 Mehefin, 2011 pryd yr etholwyd y Cynghorydd Dafydd Meurig, aelod o Grŵp Plaid Cymru ar y Cyngor.

1.6 Ar 1 Gorffennaf, 2011 derbyniwyd ymddiswyddiad y Cynghorydd Richard Lloyd Jones, aelod Ward Diffwys a Maenofferen, Blaenau Ffestiniog.

1.7 O ganlyniad mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Plaid Cymru | 36 |
| Annibynnol | 16 |
| Llais Gwynedd | 12 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | 4 |
| Llafur | 4 |
| Aelod Unigol | 1 |
| Sedd Wag | 2 |
| **Cyfanswm** | **75** |

## 2. DYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

2.1 I atgoffa'r aelodau, nodir yma'r pedair prif reol yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai

1989 ynglŷn â dyrannu seddau:-

2.2 (a) Ni chaiff pob sedd ar bwyllgor ei dyrannu i'r un grŵp gwleidyddol;

(b) Rhaid dyrannu mwyafrif y seddau ar bwyllgor i grŵp gwleidyddol os yw nifer y personau sy'n perthyn i'r grŵp yn fwyafrif o aelodau'r Cyngor;

(c) Yn amodol ar baragraffau (a) a (b) uchod, bydd nifer y seddau ar y pwyllgorau cyffredin a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un fath â'r nifer o'r holl seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor;

(ch) Yn amodol ar (a),(b) ac (c) uchod, bydd nifer y seddau ar bwyllgor a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un gyfran o'r seddau ar y pwyllgor â'r nifer o seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor.

2.3 Er mwyn sicrhau y glynir wrth y rheolau hyn, mae'r Cyngor wedi bod yn ymdrin â phwyllgorau mewn blociau gwahanol yn y gorffennol. Mae hyn yn ei wneud yn haws i sicrhau y glynir wrth reol (c) ym mharagraff 2.2 uchod hefyd.

2.4 Mae angen i'r Cyngor cymryd i ystyriaeth y newid i'r cydbwysedd rhwng y grwpiau gwleidyddol wrth ddyrannu seddau ar bwyllgorau'r Cyngor yn dilyn i un aelod penderfynu bod yn aelod unigol, a bod gan y grwpiau Democratiaid Rhyddfrydol, Llais Gwynedd ac Annibynnol un aelod yn llai nag o'r blaen.

2.5 Yn unol â threfn y Cyngor hwn gofynnwyd i Grŵp Busnes y Cyngor gyfarfod i drafod y mater er cyflwyno argymhelliad i'r Cyngor Llawn.

2.6 Cyfarfu'r Grŵp Busnes ar 5 Gorffennaf, 2011.

2.7 Buont yn trafod dau ddewis sef (a) gadael y pwyllgorau fel y maent ar hyn o bryd hyd oni bod canlyniad yr isetholiadau yn Wardiau Glyder, Bangor a Diffwys a Maenofferen, Blaenau Ffestiniog yn wybyddus a chyflwyno argymhellion i'r Cyngor Llawn ym mis Hydref, a (b) gwneud cyn lleied o newidiadau â phosib i'r seddau ar y pwyllgorau er cynnig dwy sedd ar y pwyllgorau i'r Aelod Unigol.

2.8 Roedd Grŵp Busnes y Cyngor o'r farn, er tegwch i'r Aelod Unigol, y dylai fabwysiadu'r ail opsiwn ac felly penderfynwyd argymell newid y lleiafswm posib ar y seddau ar bwyllgorau'r Cyngor gan gyflwyno argymhellion pellach i Gyngor Hydref.

2.9 Golyga hyn bod y Grŵp Annibynnol yn rhoi un sedd i'r Aelod Unigol ar y Pwyllgor Archwilio ac ar y Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig.

2.10 Golyga hefyd bod Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol yn rhoi sedd ar y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc i'r Grŵp Annibynnol a sedd ar y Pwyllgor Trwyddedu i Grŵp Plaid Cymru. (gweler **Atodiad A**)

2.11 Gan nad yw'r argymhelliad yn llwyr adlewyrchu'r cydbwysedd gwleidyddol fel y mae ar hyn o bryd, bydd rhaid i'r aelodau bleidleisio dros y cynnig yn ddiwrthwynebiad.

## 3. CADEIRYDDIAETHAU AC IS-GADEIRYDDIAETHAU

3.1 Yn unol â gofynion Rheoliadau Awdurdod Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2007 mae yn ofynnol dyrannu cadeiryddiaethau pwyllgorau er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, fod cydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod yn cael ei adlewyrchu

gan y cadeiryddiaethau hynny.

3.2 Y drefn yn y Cyngor hwn yw dyrannu is-gadeiryddiaethau pwyllgor hefyd yn ôl cydbwysedd gwleidyddol ac i Grŵp Busnes y Cyngor drafod y trefniadau ymlaen llaw.

3.3 Yn unol â rheol 6.2 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen)(Cymru) 2007 ni all aelod o'r un grŵp gwleidyddol â chadeirydd y Bwrdd fod yn gadeirydd nac yn is-gadeirydd y Prif Bwyllgor Craffu na chadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

3.4 Ers mis Mai mae'r Cyngor wedi profi trafferthion wrth geisio ethol is-gadeiryddiaethau y Pwyllgor Craffu Amgylchedd a Phwyllgor Ardal Meirionnydd ac o'r herwydd gofynnwyd i'r Grŵp Busnes rhoi sylw i'r mater.

3.5 Nodwyd sawl opsiwn posib ar gyfer yr is-gadeiryddiaethau a fyddai'n cael effaith ar grwpiau'r Democratiaid Rhyddfrydol, Plaid Cymru a Llais Gwynedd ond heb newid y cydbwysedd gwleidyddol, megis cadw is-gadair Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn wag, neu fod Grŵp Llais Gwynedd yn cymryd is-gadair Pwyllgor Craffu Amgylchedd a Grŵp Plaid Cymru yn cymryd is-gadair Pwyllgor Ardal Meirionnydd tra bod y Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol yn cymryd is-gadair y Pwyllgor Adnoddau Dynol.

3.6 Yng nghyfarfod y Grŵp Busnes a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf cytunwyd y byddai arweinwyr y grwpiau gwleidyddol yn trafod yr opsiynau posib ar gyfer yr is-gadeiryddiaethau gydag aelodau'r grwpiau er dod ag argymhellion i'r Cyngor Llawn.

## 4. PWYLLGOR CYNLLUNIO

4.1 Mae sedd wag ar y Pwyllgor Cynllunio am fod un aelod o grŵp Plaid Cymru, ardal Dwyfor wedi derbyn sedd ar Fwrdd y Cyngor.

4.2 Ym mis Mai, 2010 penderfynodd y Cyngor ethol aelodau ar y Pwyllgor Cynllunio yn unol â chydbwysedd gwleidyddol y Cyngor ac ar gydbwysedd ardal.

4.3 Golyga hyn mai sedd i aelod o ardal Dwyfor sy'n wag ond derbyniwyd mynegiant o ddiddordeb gan aelod o grŵp Plaid Cymru o ardal Arfon mewn bod yn aelod ar y Pwyllgor Cynllunio ac o'r herwydd byddai'n cael effaith ar y cydbwysedd rhwng yr ardaloedd ar y pwyllgor.

4.4 Cyfeiriwyd y mater i sylw'r Grŵp Busnes er derbyn argymhelliad i'r Cyngor Llawn ond roedd yr arweinwyr gwleidyddol o'r farn mai mater i'w drafod yn y Cyngor ydoedd gan y byddai angen cytundeb y Cyngor i ddileu'r angen am gydbwysedd ardal.

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1 Gofynnir i'r Cyngor:-

i. newid dyraniad y seddau ar y pwyllgorau fel y noder yn 2.9 a 2.10 uchod a bod y Grŵp Annibynnol yn rhoi un sedd i'r Aelod Unigol ar y Pwyllgor Archwilio ac ar y Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig, tra bod Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol yn rhoi sedd ar y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc i'r Grŵp Annibynnol a sedd ar y Pwyllgor Trwyddedu i Grŵp Plaid Cymru;

ii. dyrannu is-gadeiryddiaethau y Pwyllgor Craffu Amgylchedd a Phwyllgor Ardal Meirionnydd yn unol â'r cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor.

iii. penderfynu dileu'r angen am gydbwysedd ardal ar y Pwyllgor Cynllunio er caniatáu i aelod o ardal Arfon cael ei ethol ar y Pwyllgor Cynllunio.

**ATODIAD A**

## BWRDD Y CYNGOR A'R PRIF BWYLLGOR CRAFFU

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Democratiaid Rhyddfrydol | Llafur | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd y Cyngor | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 | |
| Prif Bwyllgor Craffu | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 | |

### PWYLLGORAU CRAFFU ERAILL

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Democratiaid Rhyddfrydol | Llafur | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu | 8 | 3 | 3 | 1 | | |
| Amgylchedd | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 | |
| Plant a Phobl Ifanc | 7 | 4 | 3 | | 1 | |
| Gofal | 8 | 3 | 2 | 1 | 1 | |

### PWYLLGORAU ERAILL

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Democratiaid Rhyddfrydol | Llafur | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Archwilio | 7 | 3 | 3 | | 1 | 1 |
| Adnoddau Dynol | 6 | 2 | 2 | 1 | | |
| Cynllunio | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 | |
| Trwyddedu Canolog | 6 | 3 | 2 | | | |
| Apelau Cyflogaeth | 3 | 1 | 1 | 1 | 1 | |
| Pensiynau | 2 | 2 | 1 | 1 | 1 | |
| Cydbwyllgor Lleol | 6 | 2 | 2 | | 1 | |
| Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig | 4 | 1 | 1 | | | 1 |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | 3 | 2 | 1 | 1 | 1 | |
| Iaith | 3 | 2 | 2 | | | |
| CYSAG | 3 | 2 | 1 | 1 | | |